CANLLAWIAU

Canllawiau i gyrff dyfarnu ar Amod F1

Canllawiau i gyrff dyfarnu am sicrhau bod gwybodaeth am ffioedd ar gael i brynwyr

Cefndir

Rydym yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gennym i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae pob corff dyfarnu cydnabyddedig yn ddarostyngedig i'n rheolau gan gynnwys y rhai y'u nodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol.

Gwnaethom gynnal adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol yn 2019-20 a chyhoeddwyd Amod F1 ddiwygiedig a ddaeth i rym ar 18 Ionawr 2021. Yn ystod yr adolygiad dywedodd cyrff dyfarnu wrthym y byddai canllawiau'n ddefnyddiol er mwyn cefnogi eu cydymffurfiad parhaus â'r Amodau.

Felly, pwrpas y ddogfen hon ydy cefnogi cyrff dyfarnu gyda chydymffurfio. Nid bod yn ragnodol ydy'r bwriad, ac i'r perwyl hwn, cyfrifoldeb y corff dyfarnu ydy penderfynnu sut mae cydymffyrfio â'i amodau cydnabod.

Hanes y Fersiwn

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ym mis Ionawr 2021.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth am y canllawiau hyn, anfonwch e-bost at y Tîm Polisi Rheoleiddio ar polisi@cymwysteraucymru.org.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

Contents

1. Cyflwyniad 2
2. Gwybodaeth am ffioedd am gymwysterau 3
Egwyddorion Cyffredinol 3
Y 'prynwr' neu'r 'prynwr posib' 5
3. Pa wybodaeth am ffioedd y mae'n rhaid ei chyhoeddi 5
Y Ffi Safonol ar gyfer Cymhwyster (FfSC) (SQF) 6
Ffioedd Pecyn 8
Ffioedd Dysgwyr Cysylltiedig (FfDC) 8
Ffioedd Canolfannau Gorfodol 10
Isafswm trothwyon gwariant 11
4. Canllawiau am sut i gyhoeddi gwybodaeth 11
Hygyrchedd gwybodaeth am ffioedd 11
Cadw gwybodaeth am ffioedd yn gyfredol 12
Gwybodaeth glir 12
Sicrhau bod gwybodaeth am ffioedd ar gael i fodloni gofynion cynllunio prynwyr 13
5. Datganiadau gwybodaeth am ffioedd 14
6. Gweithgareddau monitro ac ymchwil 15
7. Gwybodaeth a chefnogaeth bellach 15

1. Cyflwyniad

1.1 Bydd y canllawiau hyn yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i Amod F1 ac yn archwilio'r gwahanol fathau o wybodaeth am ffioedd am gymwysterau y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu darparu i ddarpar brynwyr[1] yng Nghymru. Enghreifftiau yn unig yw'r rhai a ddarperir ac ni fwriedir iddynt fod yn derfynol nac adlewyrchu pob senario na chyd-destun sy'n ymwneud yn benodol â chyrff dyfarnu. Yn yr ysbryd hwn, rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu benderfynu pa wybodaeth am ffioedd y mae'n rhaid iddynt ei chynnwys i gydymffurfio â'r Amodau.

2. Gwybodaeth am ffioedd am gymwysterau

2.1 Mae Amod F1 yr Amodau Cydnabod Safonol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gyhoeddi gwybodaeth am ffioedd ar gyfer darpar brynwyr cymwysterau ar ei wefan sydd ar gael i'r cyhoedd.

2.2 Mae Adran J yr Amodau yn nodi'r wybodaeth am ffioedd yr ydym yn gofyn i'r corff dyfarnu ei chynnwys. Mae gwybodaeth am ffioedd yn ymwneud â'r prisiau y mae corff dyfarnu yn eu codi am ei gymwysterau a'r gwasanaethau a'r adnoddau cysylltiedig.

2.3 Mae'r rhain naill ai yn:

i) brisiau y mae'n rhaid i ddysgwr neu ganolfan eu talu i gael cyfle i ennill cymhwyster; neu

ii) yn ffioedd eraill nad ydynt yn hanfodol i gael cymhwyster, h.y. maent yn ddewisol.

Egwyddorion Cyffredinol

2.4 Egwyddor gyffredinol Amod F1 yw gwella eglurder a thryloywder gwybodaeth am ffioedd i ddarpar brynwyr. Mae'n bwysig sicrhau wrth gydymffurfio â F1 y gall darpar brynwyr ddod o hyd i wybodaeth yn rhwydd ac y gallant wneud hynny heb orfod gofyn. Yn yr un modd, pan fyddant yn cyrchu gwybodaeth, ei bod yn gywir ac yn gyfredol bob amser ac y gallant ddibynnu ar y wybodaeth hon wrth wneud

[1]Pan fyddwn yn dweud, 'darpar brynwr', rydym hefyd yn golygu 'prynwr'

penderfyniadau prynu a chyllidebu, a bod hyn yr un mor berthnasol p'un a oes gan y prynwr berthynas â'r corff dyfarnu eisoes neu ei fod yn ystyried prynu cymhwyster ac yn dymuno ystyried yr hyn y mae'r corff dyfarnu yn ei gynnig ac am ba bris.

2.5 Dyma egwyddorion i'w cofio wrth geisio cydymffurfio â'n gofynion:

1. Rhoi gwybodaeth am ffioedd am gymwysterau sy'n diwallu anghenion rhesymol darpar brynwyr;

2. Mae bod yn dryloyw ynghylch ffioedd yn hyrwyddo hyder yn y system gymwysterau;

3. Ei gwneud yn eglur i ddarpar brynwyr yr hyn y bydd angen iddynt ei dalu am gymhwyster, pecyn o gymwysterau ac unrhyw ffioedd cymwys eraill sy'n gysylltiedig â darparu ac asesu cymhwyster, neu gymwysterau;

4. Caniatáu i ddarpar brynwyr wahaniaethu rhwng ffioedd sy'n orfodol a ffioedd nad oes raid iddynt eu talu i gael cyfle i ennill y cymhwyster;

5. Galluogi darpar brynwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a cheisio gwerth am arian. Mae gwybodaeth am ffioedd yn un ffactor y mae darpar brynwyr yn ei bwyso a'i fesur yn eu penderfyniadau prynu, ochr yn ochr ag ansawdd ac ystyriaethau eraill. Bydd y ffaith fod gwybodaeth ar gael yn ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau ystyriol gael eu gwneud ynghylch gwerth am arian i'r prynwr.

6. Hyrwyddo hyder y cyhoedd trwy gael mwy o bwyslais ar ansawdd y cymwysterau a'r gwasanaethau cysylltiedig a'r adnoddau a gynigir gan gyrff dyfarnu a lleihau'r risg y bydd y farchnad yn cael ei gyrru gan bris;

7. Caniatau i ddarpar brynwyr gael at wybodaeth am ffioedd yn rhagweithiol heb ofyn am wybodaeth o'r fath gan y corff dyfarnu, neu trwy orfod darparu gwybodaeth i gorff dyfarnu neu ffurfio trefniadau ymaelodi neu gofrestru gyda chorff dyfarnu;

8. Cyflawni lefel uwch o gysondeb o ran sut y cyflwynir ffioedd ar draws cyrff dyfarnu;

9. Rhoi eglurder a thryloywder i ddarpar brynwyr, yn unol ag Amod F1.2b, wrth ddiogelu rhag darparu gormod o fanylder; a

10. Chynorthwyo canolfannau i gyrchu a defnyddio gwybodaeth am ffioedd mewn modd amserol er mwyn i hyn fod yn sail i'w penderfyniadau cynllunio.

Y 'prynwr' neu'r 'prynwr posib'

2.6 Mae Amod F1 yn cyfeirio at **brynwyr** a **darpar brynwyr.** Nid yw'r termau hyn wedi'u diffinio yn J1.8, ac felly mae ystyron cyffredin yn berthnasol.

2.7 Mae **prynwr** yn cyfeirio at unrhyw un sy'n talu ffioedd i'r corff dyfarnu er mwyn i ddysgwr gael cyfle i ennill cymhwyster. Gallai hyn fod y dysgwr ei hun, neu yn aml canolfan arholi sy'n talu'r ffi ar ran y dysgwr. Ymhlith y prynwyr dylid cynnwys darparwyr addysg a /neu hyfforddiant fel ysgolion, colegau, Unedau Cyfeirio Disgyblion neu sefydliad dysgu preifat yn seiliedig ar waith. Gallai hefyd gynnwys dysgwr sy'n ymgymryd â chymhwyster yn annibynnol ar ddarparwr, fel ymgeisydd allanol.

2.8 Mae **darpar brynwr** yn cyfeirio at unrhyw un a allai fod yn ceisio prynu cymwysterau'r corff dyfarnu. Gallai hwn fod yn gwsmer newydd i'r corff dyfarnu, neu'n unigolyn sydd wedi prynu cymhwyster o'r blaen, ac mae'r un mor berthnasol i ddysgwr neu ganolfan unigol.

3. Pa wybodaeth am ffioedd y mae'n rhaid ei chyhoeddi

3.1 Mae pedwar term diffiniedig yn J1 ac mae'r rhain yn amlinellu'r wybodaeth am ffioedd y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ei chyhoeddi ar eu gwefan sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

3.2 Y pedwar math o wybodaeth am ffioedd a ddiffinnir yn J yw:

- Ffi Safonol ar gyfer Cymhwyster;
- Ffioedd Pecyn;
- Ffioedd Dysgwyr Cysylltiedig
- Ffioedd Canolfannau Gorfodol.

3.3 Mae angen i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl ffioedd y maen nhw'n eu codi sy'n dod o dan y pedwar term diffiniedig hwn yn cael eu cyhoeddi a'u bod yn gywir bob amser.

3.4 Ond ni ddisgwylir i gyrff dyfarnu restru'r cydrannau a ddiffinnir yn Amod J1.8. Yr hyn sy'n bwysig yw fod y darpar brynwr yn gallu gweld yn hawdd pa bris y bydd angen iddo ei dalu i gael cyfle i ennill y cymhwyster. Bydd angen egluro'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y pris. Yn y pen draw, mae angen i'r corff dyfarnu sicrhau bod y pris y byddai angen i ddarpar brynwr ei dalu yn cael ei wneud yn glir, a'i fod yn dryloyw ac yn gywir bob amser.

3.5 Mae'n bwysig fod cyrff dyfarnu bob amser yn cadw egwyddorion cyffredinol y canllawiau hyn mewn cof wrth gyhoeddi gwybodaeth am ffioedd: sef sicrhau eglurder a thryloywder, a phwysigrwydd sicrhau bod darpar brynwyr yn gwybod pa bris y bydd yn rhaid iddynt ei dalu.

3.6 Yn yr un modd, rhaid i'r corff dyfarnu hefyd egluro pa ffioedd neu daliadau eraill y bydd prynwr yn eu talu os bydd yn dewis gofyn am gynhyrchion neu wasanaethau penodol, megis gofyn i'w asesiad gael ei ail-farcio.

Y Ffi Safonol ar gyfer Cymhwyster (FfSC) (SQF)

3.7 Mae'r Ffi Safonol ar gyfer y Cymhwyster (FfSC) yn cynrychioli'r **ffioedd gorfodol/taliadau** y mae'n rhaid i ddysgwr unigol eu talu, neu y mae'n rhaid eu talu ar eu rhan er mwyn iddynt gael cyfle i gael un o gymwysterau'r corff dyfarnu, gan gynnwys tystysgrif mewn perthynas ag ef. Bydd y math hwn o wybodaeth am ffioedd yn cynnwys yr holl elfennau y bydd yn rhaid i brynwr eu talu trwy gydol y broses h.y. o'r cofrestru hyd at gael y dystysgrif.

3.8 Yn nodweddiadol, mae ffioedd cofrestru wedi'u cynnwys yma ac felly mae'n rhaid eu cyhoeddi. Yn ogystal, efallai y bydd taliadau eraill sy'n orfodol, megis ffi ychwanegol am gyhoeddi tystysgrif neu am asesiad ymarferol. Yn yr un modd, os oes rhaid prynu deunyddiau asesu neu werslyfr er mwyn cael cyfle i ennill y cymhwyster, yna byddai hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r wybodaeth am ffioedd, gan ei bod yn orfodol i ddarpar brynwyr dalu. Lle nad oes unrhyw daliadau ychwanegol am gynhyrchion neu wasanaethau penodol, yna mae'n bwysig fod y corff dyfarnu yn gwneud hyn yn glir yn ei wybodaeth gyhoeddedig hefyd.

3.9 Bydd pa wybodaeth sy'n berthnasol yn dibynnu ar fodel busnes cyrff dyfarnu unigol. Darperir yr enghreifftiau canlynol fel canllaw, ond ni fyddant o reidrwydd yn berthnasol ym mhob achos:

Ffigur 1 - Enghreifftiau o ffioedd gorfodol a allai ffurfio'r Ffi Safonol ar gyfer Cymhwyster.

3.10 Efallai y bydd gan gyrff dyfarnu wahanol strwythurau a dulliau prisio ar gyfer y gwahanol gymwysterau y mae'n eu cynnig. Rhaid cynnwys a dangos holl elfennau gorfodol y ffioedd yn glir fesul cymhwyster.

3.11 Yn yr un modd, o fewn cymhwyster penodol, weithiau bydd gwahanol lwybrau neu gyfuniadau y gall dysgwr eu cymryd. Lle mae mwy nag un llwybr / cyfuniad yn bodoli, nid ydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu gyhoeddi ffioedd ar gyfer un llwybr yn unig, nac am bob cyfuniad, ond yn hytrach i ddarparu gwybodaeth dryloyw a chlir am y llwybr(au) neu'r cyfuniadau tebygol. Yn y pen draw, mae angen egluro cyfanswm y pris i brynwyr.

3.12 Gallai cyrff dyfarnu gynnig gwahanol opsiynau prisio neu ostyngiadau eraill. Felly, gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys nodyn esboniadol ar y wefan i wneud darpar brynwyr yn ymwybodol lle gallai gostyngiadau a phrisiau rhatach fod yn berthnasol.

3.13 Yma edrychwn ar ffactorau eraill y gallai fod angen i gyrff dyfarnu eu hystyried wrth benderfynu beth sydd wedi'i gynnwys yn y Ffi Safonol ar gyfer Cymhwyster:

Maint y cymhwyster	Mae llawer o sefydliadau dyfarnu yn cynnig cymwysterau pwnc-benodol sy'n wahanol o ran maint. Ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol, gallai'r rhain gynnwys cwrs byr, dyfarniad sengl, neu ddyfarniad dwbl neu, lle bo hynny'n briodol, ffioedd unedau unigol. Ar gyfer cymwysterau galwedigaethol gallai'r rhain gynnwys dyfarniad, tystysgrif, diploma, neu ddiploma estynedig. Yn nodweddiadol, bydd ffioedd yn amrywio yn dibynnu ar faint y cymhwyster. Er mwyn sicrhau tryloywder, byddai angen i gorff dyfarnu ddarparu gwybodaeth am ffioedd i'r darpar brynwr sy'n ymwneud â phob un o'r opsiynau maint sydd ar gael i ddysgwr i gael cymhwyster.
Strwythurau asesu	Pan fo trefniadau asesu unedol ar waith ar gyfer cymhwyster, rhaid i gyrff dyfarnu gyhoeddi'r ffioedd fesul uned yn ogystal ag ar gyfer y cymhwyster llawn. Er mwyn sicrhau tryloywder, byddai nifer yr unedau y byddai angen i ddysgwr gael ei gofrestru ar eu cyfer, er mwyn cyflawni'r cymhwyster llawn, yn cynorthwyo'r prynwr gyda chyfrifiadau, oherwydd gallai swm y ffioedd am yr unedau fod yn wahanol i'r ffi ar gyfer y cymwysterau os cânt eu talu'n llawn.
Ffioedd cylchol	Pan fydd ffioedd yn daladwy fwy nag unwaith, dylai cyrff dyfarnu nodi'n glir nifer y taliadau sy'n ofynnol, a nodi a fyddai ffioedd /taliadau yn sefydlog trwy gydol y cyfnod y gwneir y cymhwyster, neu am bob uned.
Gostyngiadau i ganolfannau	Gallai sefydliadau dyfarnu drafod gostyngiadau ar unrhyw rai o'u ffioedd (gan gynnwys y rhai sy'n dod o fewn y Ffi Safonol ar gyfer y Cymhwyster) gyda darpar brynwyr, er enghraifft yn seiliedig ar faint disgwyliedig eu carfan, neu i adlewyrchu eu rôl wrth ddatblygu neu gyflawni'r cymhwyster. Dylai'r Ffi Safonol ar gyfer y Cymhwyster adlewyrchu'r pris nodweddiadol y byddai prynwyr yn ei dalu. Os gellir defnyddio gostyngiadau, yna dylai cyrff dyfarnu nodi hyn ar yr un dudalen ar y wefan.

Ffioedd Pecyn

3.14 Diffinnir Ffioedd Pecyn at ddibenion cydymffurfio â'r Amodau yn Adran J, ac maent yn cynnwys ffioedd y mae corff dyfarnu yn eu codi pan fyddant yn sicrhau bod cymhwyster ar gael fel rhan o becyn ynghyd â chynhyrchion a /neu wasanaethau dewisol eraill.

3.15 Mae Amod F2.1 yn ei gwneud yn rheidrwydd bod cymwysterau sydd ar gael mewn pecyn ar gael hefyd ar wahân i'r pecyn hwnnw. Yn yr un modd, bydd y wybodaeth am ffioedd sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster hefyd yn cael ei chyhoeddi ar wahân i unrhyw becyn.

Ffioedd Dysgwyr Cysylltiedig (FfDC)

3.16 Mae Ffioedd Dysgwyr Cysylltiedig yn cynrychioli unrhyw ffi y byddai'n rhaid i ddysgwr ei thalu ond dim ond os yw'n gofyn /dewis prynu'r gwasanaeth a /neu'r

cynnyrch hwnnw gan y corff dyfarnu. Nid oes rhaid i ddysgwyr gael y gwasanaethau a /neu'r nwyddau hyn i gael cyfle i ennill y cymhwyster.

3.17 Rhaid i gyrff dyfarnu gyhoeddi'r **holl gynhyrchion a gwasanaethau dewisol** sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu a dyfarnu cymwysterau a gynigir. Gallai enghreifftiau gynnwys ffioedd am ail-farcio, apeliadau neu ffi mynediad hwyr. Mae taliadau eraill nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â darparu a /neu ddyfarnu'r cymhwyster, megis ffioedd parcio, neu ddeunyddiau addysgu eraill, y tu allan i'r cwmpas.

3.18 Lle mae yna Ffioedd Dysgwyr Cysylltiedig, mae angen i gyrff dyfarnu ystyried sut maen nhw'n cyhoeddi'r wybodaeth hon ochr yn ochr â'r Ffi Safonol ar gyfer y Cymhwyster ac unrhyw ffioedd cysylltiedig eraill ar y wefan fel bod y darpar brynwr yn glir ynghylch y ffioedd a'r taliadau amrywiol.

3.19 Dyma enghreifftiau o rai mathau o wybodaeth am ffioedd a allai ddod o dan Ffioedd Dysgwyr Cysylltiedig, yn dibynnu ar fodel busnes y corff dyfarnu unigol:

Mynediad hwyr neu hwyr iawn	**Adolygu marcio a/neu ail-farcio**	**Dychwelyd sgriptiau y gofynnwyd amdanynt**
Apeliadau	**Tystysgrifau yn lle rhai a gollwyd**	**Cofrestriadau bob hyn a hyn neu unwaith ac am byth**

Ffigur 2 - Enghreifftiau o Ffioedd Dysgwyr Cysylltiedig Cyffredin (FfDC)

3.20 Mae yna rai cynhyrchion a gwasanaethau a allai, yn dibynnu ar bolisi'r corff dyfarnu, syrthio i fwy nag un categori. Mae'n bwysig ailadrodd nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gyhoeddi gwybodaeth am ffioedd wedi'u dadansoddi yn ôl categori. Yn hytrach, dylent ddilyn yr egwyddor o eglurder a thryloywder ar gyfer darpar brynwyr.

3.21 Mae'r adran nesaf hon yn rhoi rhywfaint o ganllawiau am rai cynhyrchion a gwasanaethau y gallai rhai cyrff dyfarnu godi tâl amdanynt ac yn dibynnu ar y cyd-destun, gallant gael eu dosbarthu o dan Ffioedd Safonol ar gyfer y Cymhwyster (FfSC) neu Ffioedd Dysgwyr Cysylltiedig (FfDC):

Aelodaeth broffesiynol	Pan mae corff dyfarnu hefyd yn gweithredu fel y corff proffesiynol a dim ond yn caniatáu i ddysgwr gymryd ei gymwysterau os yw'n aelod, byddai'r aelodaeth broffesiynol yn cael ei hystyried yn rhan o'r Ffi Safonol ar gyfer y Cymhwyster - pris y mae'n rhaid iddynt ei dalu i geisio ennill y cymhwyster. Gall ffioedd aelodaeth broffesiynol fod yn Ffi Dysgwr Cysylltiedig lle nad ydynt yn ofyniad gorfodol neu'n un o ragofynion cymhwyster y corff dyfarnu, ond gallai'r dysgwr ddod yn aelod o'r corff proffesiynol pe bai'n dewis gwneud hynny. Dim ond pan fo aelodaeth yn gysylltiedig â'r cymhwyster y byddai ffioedd yn berthnasol. Byddai ar ddarpar brynwyr hefyd angen gwybodaeth am hyd yr aelodaeth (blynyddol, 5 mlynedd, neu oes) a'r adeg y daw ffioedd aelodaeth yn daladwy (y cam cofrestru, asesu neu ardystio).
Ail-sefyll cymhwyster	Pan fydd dysgwr yn dewis ail-sefyll cymhwyster neu uned a lle mae corff dyfarnu yn codi tâl am hyn, byddai'r dysgwr /darpar brynwr yn dewis p'un a fyddent yn bwrw ymlaen â hyn ac yn ail-sefyll. Oherwydd yr **elfen ddewisol** hon, byddai angen cyhoeddi'r wybodaeth am ffioedd gan ei bod yn dod o dan Ffi Dysgwr Cysylltiedig a ddiffinnir yn J. Pan fydd corff dyfarnu yn cynnig ail-sefyll cymhwyster neu uned 'am ddim' byddai hyn yn cael ei nodi'n glir a'i gynnwys ar y wefan fel rhan o'r wybodaeth am ffioedd.
Gwerslyfrau	Byddai gwerslyfrau a deunyddiau dysgu eraill sy'n benodol ar gyfer y cymhwyster a gyhoeddir gan y corff dyfarnu nad oes eu hangen ar gyfer yr asesiad yn cael eu hystyried fel **tâl dewisol,** yn daladwy dim ond pan fydd dysgwr yn dewis prynu'r deunyddiau hyn gan y corff dyfarnu. Os ydynt yn ddewisol, yna dylid cynnwys y prisiau hyn yn y wybodaeth am ffioedd a gyhoeddir, gan nodi'n glir eu bod yn ddewisol - fel y diffinnir hynny o dan y Ffi Dysgwr Cysylltiedig. Pan fydd y corff dyfarnu yn ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr brynu gwerslyfrau a deunyddiau dysgu eraill er mwyn ceisio ennill y cymhwyster, rhaid cynnwys gwybodaeth am ffioedd mewn perthynas â'r rhain ar y wefan fel y'i diffinnir gan y Ffi Safonol ar gyfer y Cymhwyster.

Ffioedd Canolfannau Gorfodol

3.22 Mae'r ffioedd hyn yn cynrychioli'r holl ffioedd gorfodol y mae'n rhaid **i Ganolfan eu talu** i gyflwyno cymwysterau, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ffi Safonol ar gyfer y Cymhwyster ar gyfer y cymwysterau. Byddai'r ffioedd hyn fel arfer yn cael eu codi naill ai ar lefel Canolfan neu ar lefel carfan.

3.23 Mae enghreifftiau o ffioedd ar lefel Canolfan a charfan yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

Ffioedd lefel canolfan	Ffioedd lefel carfan
Ffioedd Cymeradwyo Canolfannau Cychwynnol (canolfannau newydd)	Ffioedd cymedroli a godir ar lefel carfan neu Ganolfan
Ffioedd Canolfannau Blynyddol	Ffioedd yn ymwneud â darparu cymwysterau penodol
Ffioedd am ymweliadau bob hyn a hyn, gorfodol, ee ar gyfer archwilio neu sicrhau ansawdd, gan gynnwys ymweliadau ychwanegol oherwydd materion ansawdd a nodwyd ac ymweliadau â chanolfannau eraill lle mae'r corff dyfarnu yn pennu'r rhain.	Ffioedd nad ydynt yn gysylltiedig â chymhwyster penodol
Cymeradwyo cymwysterau	Ffioedd am drosglwyddo dysgwr o un ganolfan i ganolfan amgen y tu mewn neu'r tu allan i'r DU
Mynediad at byrth / systemau ar-lein y corff dyfarnu	Ffioedd yn ymwneud â thynnu dysgwr neu garfan yn ôl o restr i astudio am gymhwyster penodol

Isafswm trothwyon gwariant

3.24 Pan fydd cyrff dyfarnu yn cymhwyso trothwyon gwariant isaf, dylid cyhoeddi'r telerau sy'n ymwneud â'u cais ochr yn ochr â phob trothwy gwariant. Byddai hyn hefyd yn berthnasol lle mae gan gyrff dyfarnu gofrestriadau trothwyon isaf a /neu gofrestriadau am arholiadau.

4. Canllawiau am sut i gyhoeddi gwybodaeth

4.1 Mae Amod F yn mynnu bod gwybodaeth am ffioedd:

- yn cael ei chyhoeddi ar wefan sy'n wynebu'r cyhoedd (cyhoeddir diffiniad yn J);
- yn cael ei chadw'n gyfredol (F1.2a);
- yn glir i ddarpar brynwr (F1.2b);
- yn hygyrch i unrhyw ddarpar brynwr heb i'r unigolyn hwnnw orfod gofyn amdani gan y corff dyfarnu, na ddarparu unrhyw wybodaeth iddo (F1.2c)

Hygyrchedd gwybodaeth am ffioedd

4.2 Er mwyn cydymffurfio ag Amod F1.2, rhaid cyhoeddi gwybodaeth am ffioedd ar wefan y corff dyfarnu a bod honno ar agor i'r cyhoedd. Mae'n bwysig fod darpar brynwyr yn gallu cyrchu gwybodaeth am ffioedd yn effeithlon heb orfod gofyn amdani.

4.3 Mae'n bwysig fod darpar brynwyr yn gallu cael mynediad at yr un wybodaeth am ffioedd â phrynwyr presennol, heb orfod cysylltu â'r corff dyfarnu, ac ymrwymo i gytundebau aelodaeth neu gontractau masnachol neu fewngofnodi i system ddiogel i dderbyn y wybodaeth hon.

4.4 Anogir cyrff dyfarnu i ystyried lleoliad gwybodaeth am ffioedd ar eu gwefan er mwyn ei gwneud mor hawdd â phosibl i'r darpar brynwr ddod o hyd i ffioedd a thaliadau'r corff dyfarnu.

Cadw gwybodaeth am ffioedd yn gyfredol

4.5 Mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod eu gwybodaeth am ffioedd yn gywir bob amser. Felly, mae angen i gyrff dyfarnu gadw gwybodaeth gyhoeddedig am ffioedd dan adolygiad rheolaidd a diweddaru gwybodaeth wedi'i chyhoeddi yn rheolaidd i ychwanegu, dileu a diwygio gwybodaeth a gyhoeddwyd am ffioedd i adlewyrchu newidiadau i ffioedd.

4.6 Yn ogystal ag Amod F1.2, mae Amodau eraill yn nodi na ddylai gwybodaeth i brynwyr a defnyddwyr cymwysterau fod yn gamarweiniol (**Amod B5.2**), neu yn yr achos lle mae statws cymwysterau corff dyfarnu yn newid neu'n cael ei dynnu'n ôl, rhaid i'r wybodaeth fod yn glir ac yn gywir (**Amod D6.6**).

Gwybodaeth glir

4.7 Rhaid i wybodaeth fod yn glir i ddarpar brynwyr. Mae enghreifftiau o ffyrdd y gallai corff dyfarnu eu hystyried er mwyn gwneud gwybodaeth am ffioedd yn glir i ddarpar brynwr yn cynnwys y canlynol, er nad ydynt yn gyfyngedig i'r rhain:

- arddangos gwahanol fathau o ffioedd yn glir er enghraifft, ffioedd unedau a ffioedd cymwysterau llawn, lle mae'n bosibl talu am fynediad neu gofrestriadau ar gyfer uned unigol;

- strwythuro'n rhesymegol a gwneud cysylltiadau clir o ffioedd gorfodol ac anorfodol i gymwysterau, cynhyrchion a /neu wasanaethau penodol y gellir codi tâl amdanynt;

- rhoi hyfforddiant priodol i staff gwerthu, marchnata a rhai sy'n wynebu'r cwsmer (prynwr) am ffioedd gorfodol a dewisol a lle bo hynny'n berthnasol, yr hyn a gynhwysir yn y ffioedd hyn, cyn eu cyhoeddi; a

- chymryd camau cadarnhaol ac amserol i ddatrys problemau a nodwyd yn ymwneud ag eglurder gwybodaeth a gyhoeddwyd am ffioedd a godwyd gan brynwyr neu ddefnyddwyr eraill gwybodaeth am ffioedd cymwysterau.

4.8 Mae rhai enghreifftiau ymarferol o ffyrdd i gefnogi darpar brynwyr ymhellach gyda gwybodaeth am ffioedd yn cynnwys:

- Cwestiynau Cyffredin wedi'u cyhoeddi;
- E-bost neu fanylion cyswllt ffôn ar gyfer adran neu aelod staff priodol; a
- Llwyfannau sgwrsio ar-lein/ sgwrsio fideo.

4.9 Yn ogystal, cofiwch yr ystyriaethau canlynol i roi mwy o eglurder i ddarpar brynwyr:

Amrywiadau mewn ffioedd / taliadau	Prisio cyfredol	Ffioedd / taliadau cymesur	Ffioedd ar adeg arbennig
Gall ffioedd amrywio yn ôl cymhwyster neu beidio. Lle nad ydyn nhw'n amrywio, nid oes angen eu hailadrodd.	Gwnewch yn glir pryd, neu ar ba adeg y mae ffioedd cyhoeddedig yn berthnasol.	Pan osodir ffioedd fel canran o'r FfSC, cyflwynwch y ffi hon yn y ffordd honno, yn hytrach na chyhoeddi'r gwerthoedd gwirioneddol sy'n berthnasol i bob cymhwyster.	Pan ddaw ffioedd yn daladwy ar ôl adeg penodol, byddai angen nodi llinell amser glir ee, cofrestriadau yn cael eu tynnu'n ôl o fewn 2 fis.

Ffigur 3 - Awgrymiadau pellach ar gyfer gwella eglurder gwybodaeth am ffioedd.

Sicrhau bod gwybodaeth am ffioedd ar gael i fodloni gofynion cynllunio prynwyr

4.10 Mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ddigon pell ymlaen llaw i fodloni gofynion cynllunio rhesymol darpar brynwyr (F1.3). Mae'r gofyniad hwn yn bwysig fel y gallai prynwyr gynllunio'r canlynol yn effeithiol:

- cynlluniau cwricwlwm a phrosbectysau;
- cyllidebau a threfniadau a chyfyngiadau ariannol, gan gynnwys cysoni cyfrifon ac anfonebu;
- nifer y dysgwyr (cofrestriadau dysgwyr a'r niferoedd sy'n sefyll arholiadau);
- gofynion staffio ac amserlennu darpariaeth;

- adnoddau, gan gynnwys systemau a meddalwedd TG, gwerslyfrau, offer ar gyfer pynciau penodol; a
- dyddiadau cau taliadau gan gynnwys, polisïau talu anfonebau corff dyfarnu, cyflwyno cyfrifon, a thalu ffioedd am ail-farcio neu geisiadau am adolygiadau.

4.11 Gallai angen prynwr am wybodaeth amserol am ffioedd fod yn wahanol yn dibynnu pryd yn y flwyddyn academaidd mae angen cofrestru carfannau o ddysgwyr a /neu eu cofrestru i'w hasesu. Bydd cyhoeddi gwybodaeth am ffioedd yn brydlon yn rhoi amser i ddarpar brynwyr wneud penderfyniadau gwybodus wrth ddewis rhwng cyrff dyfarnu ac amser i gyhoeddi gwybodaeth am gymwysterau.

5. Datganiadau gwybodaeth am ffioedd

5.1 Er ei bod yn ofynnol bod pob corff dyfarnu yn cydymffurfio ag Amod F1.1 (a) i F1.1 (d) a F1.3, bydd unrhyw eithriadau yn brin a thros dro.

5.2 Rydym o'r farn mai **dim ond mewn amgylchiadau eithriadol** y bydd hyn yn **berthnasol**, lle gall y corff dyfarnu ddangos nad yw'n bosibl cydymffurfio â gofynion un neu fwy o'r Amodau hyn ar adeg benodol.

5.3 Lle nad yw'n bosibl i gorff dyfarnu gyfrifo a chyhoeddi gwybodaeth am ffioedd sy'n ofynnol o dan F1.1 ar unwaith, yn unol ag F1.3 rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol yn ddigonol ymhell cyn yr amser y sicrheir y bydd cymhwyster ar gael i ddysgwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau bod darpar brynwyr yn gallu gwneud penderfyniadau cynllunio amserol eu hunain.

5.4 Lle nad yw'r uchod yn bosibl, ac anaml iawn y disgwyliwn i hyn fod, mae Amod F1.4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu:

- ddarparu digon o wybodaeth i'r darpar brynwr i roi arwydd rhesymol o'i ffioedd tebygol (hy ffioedd dangosol);
- ynghyd â datganiad clir i wneud darpar brynwyr yn ymwybodol bod y wybodaeth hon yn ddangosol yn unig.

5.5 Os ydynt yn cynhyrchu datganiadau dal, anogir cyrff dyfarnu i ddarparu:

1. rhesymeg glir a dilys dros beidio â chyhoeddi gwybodaeth amserol am ffioedd sy'n ofynnol gan Amod F1.1 (a) - F1.1 (d); a

2. dyddiad penodol erbyn pryd y bydd gwybodaeth am ffioedd ar gael ar wefan y corff dyfarnu sy'n wynebu'r cyhoedd.

5.6 Rhaid i'r datganiad am ffioedd fod yn glir ac yn hawdd ei ddeall gan ddarpar brynwyr.

6. Gweithgareddau monitro ac ymchwil

6.1 O bryd i'w gilydd, gallai Cymwysterau Cymru ofyn am wybodaeth am ffioedd gan gyrff dyfarnu at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio. Lle na cheir bod gwybodaeth am ffioedd ar gael ar y wefan sy'n wynebu'r cyhoedd neu fod y wybodaeth sydd ar gael yn aneglur neu mewn rhai mannau nad yw'n cydymffurfio, gallwn ofyn am y wybodaeth hon.

7. Gwybodaeth a chefnogaeth bellach

7.1 Rydym yn adolygu ein canllawiau ac os oes gennych unrhyw adborth arnynt neu os hoffech gael cefnogaeth ychwanegol am yr Amodau, yna cysylltwch â'r Tîm Polisi Rheoleiddio a polisi@cymwysteraucymru.org.